

yr eglwys. *Deallais mai'r clochydd oedd, a dywedodd ei fod ynghyd â'i ddyletswyddau eraill yn cerdded yr Eglwys i fyny ac i lawr yn ystod pob gwasanaeth gyda'r gloch yn ei law, ac os y gwelai fod rhywun wedi hepiant byddai yn canu y gloch wrth ei glust. Byddai y gwaradwydd o gael pawb i wybod ei fod yn cysgu yn cadw pawb ar ddihun.* Bu i'r hen arferiad yma ddiod i ben yn 1844 pryd yr ailddiffiniwyd dyletswyddau y clochydd, ond yn Eglwys Kerry, roedd y clochydd i gadw ei gôt.

Byddai'r 'gloch fawr' yn cael ei chanu cyn pob oedfa, ac fel y soniais byddai'n dechrau canu rhyw bum munud cyn i'r gwasanaeth offren mewn ambell le, er mwyn i'r morynion wybod pryd i ddisgwyl y Meistri adref am fwyd - y 'bush telegraph'! 'Y Gloch Botes' oedd y donec yma yn cael ei galw yn Eglwys Llan-y-Blodwel.

### Clychau Eglwys Kerry yn cael eu canu yn 1176

Mae tair cloch yn nhŵr Eglwys Kerry, felly, byddai dau arall o leiaf yn tynnu y rhaffau efo'r clochydd. Mae arysgrif ar un yn darllen 'God Save His Church 1679' ond am ryw reswm mae'r gair 'save' â'i ben i lawr. Ar y lleill gwelir 'Prosperity to the Church of England' a 'Sancte, Egiveire, Ora. Pro. Nobis' Mae y gloch ganol yn dyddio oddeutu'r flwyddyn 1400. Bu cryn ganu ar glychau hen Eglwys Kerry yn 1176 pryd y llwyddodd Gerallt Gymro fel Arch ddeon Brycheiniog, rwystro, wyneb yn wyneb, i Esgob Adam o Lanelwy gael cynnwys Powys yn ei Esgobaeth. Roedd Powys ers dros 300 mlynedd wedi bod o dan Esgobaeth Tŷ Ddewi. Diwrnod mawr oedd hwnnw, reit siwr - y ddau yno, ynghyd â'u gosgordd. Yr Esgob yn ceisio diarddel Gerallt Gymro - y clychau yn canu, pawb yn gweiddi, a'r Esgob a'i ddynion yn cael eu peledu â cherrig a ffyn ac yn gorfod dianc oddi yno am eu bywyd.

Byddai'r clochydd yn cael ei gydnabod am ganu'r gloch, ac y mae cofrestr eglwysig yn cyfeirio at y gydnabyddiaeth iddo yn flynyddol fel 'Yd y Gloch', Ysgub y Gloch a Blawd y Gloch'.

### Torri Rhybudd yr Archesgob

Bu'n arferiad o gerdded o gylch terfynau'r plwyfi, ac mewn ambell le byddai'r gloch yn cael ei chanu. Mewn gwirionedd, ni ddylid gwneud hynny gan eu bod yn torri y rhybudd aeth allan gan Archesgob Grindal yn 1571 yn ei wahardd. Ond roedd hwnnw'n bell yn Lloegr, ac wedi ei gladdu ers talwm.

Cawn sôn am Gloch Bangu, Glasgwm, gan Gerallt Gymro - cloch ein nawddsant Dewi yn ôl pob sôn. Ceir sôn am glychau yn yr Hen Destament. Byddai clychau o gwmpas godre clog yr offeiriad, a byddai

eu sŵn i'w clywed fel y byddai yn dod i'r cysegr (hyn yn arwydd nad oedd Duw wedi lladd yr offeiriad ond ei fod yn derbyn ei aberth drosto ei hun a hwythau).

### Deial yn dweud yr amser

Ni bu i mi erioed feddwl am darddiad yr arferiad o ofyn 'faint yw hi o'r gloch' neu o'i gyfieithu 'how much is it from the bell'.

Cefais yr ateb yn 'Gweithiau Gethin' - I liaws o Eglwysi hynaf y dywysogaeth 'roedd rhaff y gloch yr ochr allan i'r Clochdy, a byddai llwybr gwastad lyfn oddi wrth y rhaff at y Deial, ar yr hon yr oedd rhif nodau, yn dangos yr amser drwy dywyniad yr haul dros y llethr fys, yr hwn oedd â'i gyfeiriad o dde i ogledd, yr un ffordd â thalceen yr eglwys lle safai y gloch'. Â Owen Gethin Jones ymlaen i egluro y byddai'n rhaid i'r clochydd 'druan ŵr' wylïo'r deial yn ofalus o dywyniad haul, a rhoi tonc ar y gloch ar yr awr, e.e. un donec am un o'r gloch a dwy am ddau o'r gloch. Cyflwynodd David Wilson, Nefyn, ddeial o'i waith ei hun a'i osod ym mynwent Llandegai.

### Cloch yn rhifo oriau'r dydd

Os deuai cwmwl neu dywydd drwg i guddio'r haul, yna byddai gan y trigolion 'wydryn a thywod ynddo o'r enw AWR a throid y pen arall i lawr bob tro y clywid y gloch, a byddai y tywod wedi rhedeg pob llychyn drwy y chwiw dwll oedd yn ei ganol yn gywir cyn clywid y gloch drachefn'. Gwyddwn am yr *hourglass*, wrth gwrs, ond erioed wedi meddwl pam ein bod yn dweud mae yn chwarter i, neu 'chwarter wedi', hynny ydi, yr 'i' nes y canai'r gloch yr awr nesaf, ar 'wedi' i ddynodi ei bod ond bron wedi canu. Yng Nghadeirlan Tŷ Ddewi mae cloch efo arysgrif 'A'R GLOCH YN RHIFO ORIAU'R DYDD I BEN'. Hyn yn ein hatgoffa am Gray's Elegy - 'The Curfew (h.y. yr hwyrgloch) tolls the knell of parting day' a'r cyfieithiad 'Dacw ddolef y ddyhydd-gloch yn oer ganu enul y dydd'.

### Canu cloch ar ddydd Mawrth Crempog

Bu'n arferiad i ganu cloch yr eglwys ar Ddydd Mawrth Crempog, ac mae Trefor M. Owen yn cyfeirio at hyn yn ei lyfr *Welsh Folk Customs*. 'Byddai'r gloch yn cael ei chanu am 11 o'r gloch bob bora Dydd Mawrth Crempog yn Worthenbury,



Eglwys Gwyddelan

Sir y Fflint - yn ôl y traddodiad, dyna'r amser i roi y crempog ar y tân, ond mewn gwirionedd, cadw yr oeddynt yr hen ddefod o alw'r plwyf i'r eglwys i gyfaddef eu pechodau cyn y Grawys. Byddai'r gloch yn cael ei chanu mewn mannau eraill yng Nghymru, ac yn Lloegr hefyd - cyfeiria y Sais ati fel 'the Pancake Bell'.

Byddai'n bwysig cadw'r gloch mewn cyflwr da ac yn 'Llyfr Plwy'r Ynys (Ynys Cynhaiarn), gwelwn iddynt dalu '£0.14.0d i Llawelun Francus am drwsio'r gloch, a £0.12.0d i John Roberts am guff i'r gloch.' (Cymru 1891/2) Peth anghyffredin oedd i eglwys fod heb glochdy a chyfeira Tecwyn at hyn yn ei ysgrif 'Pythefnos yn y Deheudir' (Cymru cyf.VII 1894) pan yn sôn am Eglwys Casllwchwr ... *hen adeilad cyffredin - heb glochdy, ond nid heb gloch. Hwyrach y dylwn ddweyd 'anghyffredin' am dani am ei bod yn amddifad o glochdy'.*

### Cloch Hynafol Eglwys Gwyddelan

Y gloch law hynaf y gwn i amdani ydi 'Cloch Eglwys Gwyddelan' sydd yn dyddio'n ôl i'r wythfed/nawfed ganrif. Cafwyd hyd iddi yn nhir Mynwent Bryn-y-Beddau, Dolwyddelan, a bu am yn hir ym meddiant teulu'r Gwydir. Erbyn hyn, mae yn hongian yn ei phriod le o'r nenfwd yn Eglwys Sant Gwyddelan yn y pentref. Mae arysgrif ar lawer ohonynt, fel 'I TO THE CHURCH THE LIVING CALL, AND TO THE GRAVE DO SUMMON ALL'.

Gyda chymaint o eglwysi'n cau y dyddiau yma, bydd clywed Cloch y Llan yn sŵn dieithr iawn i lawer gyda hyn, a meddwl am *adeg addoli* wedi mynd yn rhy ddieithr i'w ddwyn yn ôl i'r cof.

Dyma sut y gwelai Ifan Ifans, y bardd gwlad o Bennantlliw, Llanuwchllyn Gloch y Llan:

*I'n heglwys galw yn hyglyw - wna cloch y llan  
Clywch ei llef ddigyfrw,  
A'i thinciad, hysbysiad byw,  
Adeg addoli ydyw.*